# Cofnodion Cyfarfod
# Cyngor Cymuned Pistyll



Cynhaliwyd y cyfarfod yn y Ganolfan, Llithfaen,
Nos Fawrth 8fed o Fedi, 2020 am 7:00y.h

Cadeirydd: Y Cyng. Sara Williams
Cadeirydd y noson – Ynyr Ellis

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | | **<u>Presenoldeb ac Ymddiheuriadau</u>**<br><br>**Presennol -** Ynyr Ellis **(YE)**, Griffith Jones **(GO),** Gwilym Williams **(GW)**, Lisbeth James **(LJ)**, Sianelen Pleming **(SP)**, John Owen **(JO).**<br><br>**Ymddiheuriadau -** Sara Williams **(SW),** William Jones **(WJ),** Olwen Roberts **(OR),** Emlyn Hughes **(EH)**. Cyng. Aled Jones **(AJ).** |
| **2.** | | **<u>Hysbysiadau'r Cadeirydd</u>**<br><br>Gan fod Sara Williams wedi ymestyn ymddiheuriadau, cadeiriodd Ynyr Ellis am y noson. Diolchodd i bawb am fynychu'r cyfarfod cyntaf wyneb yn wyneb ers cychwyn y pandemig. |
| **3.** | | **<u>Datgan Diddordeb</u>**<br><br>Ynyr Ellis ar bwynt 6. sef Cais Cynllunio Rhif: C20/0667/43/LL |
| **4.** | | **<u>Diweddariadau asedau</u>**<br><br>Awgrymodd LJ bod y gysgodfa bws ar y lon angen ei glanhau - cytunodd GJ gyflawni'r gwaith. |
| **5.** | | **<u>Cofnodion Cyfarfod Mehefin, 2020</u>** |
| | ***5.1*** | **<u>Cyflwyno a mabwysiadu</u>**<br><br>Cynigiodd LJ gywirdeb y cofnodion, eiliodd YE a chytunodd pawb. |
| | ***5.2*** | **<u>Materion yn codi</u>** |
| | ***5.2.1*** | **Gwasanaeth Post yn y gymuned**<br>Yn ystod cyfarfod Mehefin cytunodd AJ lythyru gyda'r gwasanaeth post i'w hysbysebu o siom y gymuned am y gwasanaeth yn ystod y misoedd diwethaf. Gan nad oedd AJ yn bresennol ar y noson nid oedd diweddariad i'w gynnig am y tro. |

*Llofnodwyd gan..........................................................................................Dyddiad......................................................*

*Clerc Cygnor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas*
*1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP*
*E.bost: ccpistyll@outlook.com*
*Ffon symudol: 07979438307*

| | | |
|---|---|---|
| | ***5.2.2*** | **Cais am wybodaeth gan y Cyngor Sir am safle Plas Pistyll**<br>Diweddarodd y Clerc ei bod dal i ddisgwyl gohebiaeth gan y Cyngor Sir ar gais GW i ddarganfod faint o dai sydd yn talu treth i'r Cyngor a faint sy'n talu treth busnes ar safle Plas Pistyll.<br>Cytunodd y Clerc i barhau'r ymchwil. |
| | ***5.2.3*** | **Tŷ Cynefin gwag yn y pentref**<br>Diweddarodd SP bod y tŷ Cynefin erbyn hyn wedi ei osod i ferch a 2 o blant bach. |
| **6.** | | **<u>Ceisiadau Cynllunio</u>**<br><br>**Rhif Cais**: C20/0667/43/LL<br>**Lleoliad**: Tir Rhwng Rhandir & Bod Elen, Llithfaen, Pwllheli, LL53 6PA<br>**Bwriad**: Cais Cynllunio Llawn ar gyfer annedd un llawr fforddiadwy a gwaith seilwaith cysylltiedig<br><br>Nid oedd YE yn bresennol i'r penderfyniad. Cytunwyd yn unfrydol nid oedd gwrthwynebiad i'r Cais, y Clerc I ddiweddaru'r Cyngor Sir. |
| **7.** | | **<u>Gôr yrru yn yr ardal</u>**<br><br>Adroddodd LJ fod y broblem yn parhau a chytunodd y Cyngor bod y rhai sydd yn gyfarwydd ar lon yw'r broblem yn bennaf. Trafodwyd graff mesur cyflymder a dderbyniwyd gan y Cyngor Sir a phosibilrwydd cael arwyddion 30 neu hynod gostwng y cyflymder. Gofynnwyd I'r Clerc ymestyn gwahoddiad i'r Cyngor Sir, Nant Gwrtheyrn a'r heddlu i'r cyfarfod nesaf i drafod y mater ymhellach. |
| **8.** | | **<u>Gwersylla ac arwydd yn y Maes Parcio</u>**<br><br>Yn dilyn cyfarfod diwethaf y Cyngor aeth GJ ati i osod arwydd yn y maes parcio, yn anffodus erbyn hyd mae'r arwydd wedi ei ddwyn.<br>Esboniodd y Clerc ei bod wedi cysylltu ar heddlu ac yn dilyn ymholiadau roeddent wedi ei diweddaru nid oedd gwybodaeth ganddynt i'w gynnig. Roedd hefyd wedi gosod cwyn gyda'r heddlu am y gwersylla sydd yn parhau ar y safle ond yn anffodus wedi derbyn ymateb nad oedd gan yr Heddlu bwerau oni bai bod yr unigolyn yn creu ymddygiad gwrthgymdeithasol.<br>Esboniodd SP bod ap ar y WE yn hysbysebu'r safle fel man aros dros nos ac ychwanegodd ei bod wedi derbyn Deddf 1925 Tiroedd Comin gan gyfreithiwr a chwestiynodd bwerau'r heddlu.<br>Gan for Cyngor Cymuned Abererch wedi cael yr un drafferth gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Clerc am wybodaeth hefyd cysylltu gyda'r ap ac Un Llais Cymru am arweiniad. |
| **9.** | | **<u>Sbwriel yn y Maes Parcio a thop y Nant</u>**<br><br>Esboniodd SP bod y broblem yn gyfredol i Eryri a'i fod yn destun ar Twitter. Trafodwyd llythyru gyda'r Nant, Aelod Seneddol ac AHNE ynghlyn a'r broblem, cytunodd SP lunio llythyr ar ran y Cyngor yn gofyn am arweiniad. |

*Llofnodwyd gan.........................................................................................Dyddiad......................................................*

*Clerc Cyngor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas*
*1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP*
*E.bost: ccpistyll@outlook.com*
*Ffon symudol: 07979438307*

| | | |
|---|---|---|
| **10.** | | **<u>Biniau Baw ci</u>**<br><br>Y Clerc i gael diweddariad gan y Cyngor Sir am bris eu gwagio yn wythnosol. |
| **11.** | | **<u>Canlyniad Archwilio mewnol</u>**<br><br>Derbyniwyd a chymeradwywyd sylwadau ac adroddiad yr Archwilwyr mewnol. |
| **12.** | | **<u>Y Ganolfan</u>**<br><br>Esboniodd SP mae canlyniad yr asesiad risg yn dilyn Canllawiau Covid i'r Ganolfan yw :<br>• 12 o bobol yn cael cyfarfod yn y Ganolfan<br>• 6 yn y Clwb Snooker<br>• Bydd rhaid gosod ffeil 'track and trace' yn y drws<br>Aeth ymlaen i esbonio ei bod wedi gosod y wybodaeth yn Llythyr Llithfaen.<br>Bydd SP yn diweddaru'r Cyngor am reolau cynnal cyfarfodydd yn y dyfodol.<br><br>Bydd prydles y ganolfan yn cael ei thrafod yn y cyfarfod nesaf. |
| **13.** | | **<u>Cyflwr y lon i'r fynwent</u>**<br><br>Roedd y Clerc wedi derbyn cais am ddarganfod perchennog y ffordd yn arwain i'r fynwent.<br>Yn dilyn ymholiadau gyda'r Cyngor Cymuned, yr Eglwys a'r Cyngor Sir nid oedd y perchennog yn amlwg.<br>Y Clerc i gysylltu nôl yn awgrymu cysylltu â'r Land Registry. |
| **14.** | | **<u>Cwyn am wartheg ar lon Carnguwch</u>**<br><br>Yn dilyn cwyn am y gwartheg roedd y Clerc wedi cysylltu â'r Cyngor Sir a'r broblem wedi ei chywiro erbyn hyn. |
| **15.** | <br><br>***15.1***<br><br><br><br>***15.2*** | **<u>Materion Lleol</u>**<br><br>**Tori gwair y fynwent**<br>Cynigiodd GJ eiliodd JO a chytunodd pawb drefnu ail doriad i wair y Fynwent.<br>Cytunodd GW drefnu<br><br>**Llwyni wedi gordyfu**<br>Derbyniwyd cwynion bod llwyni wedi gordyfu gerbron Awelfryn<br>Y Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir. |

*Llofnodwyd gan.....................................................................................Dyddiad.....................................................*

| | | |
|---|---|---|
| **16.** | | **Gohebiaeth a Gwybodaeth** |
| | ***16.1*** | Cais am gymhorthdal gan O ddrws i Ddrws |
| | ***16.2*** | Cwyn am gyflwr y lon i'r Fynwent |
| | ***16.3*** | Canllawiau cynnal cyfarfodydd gan Un Llais Cymru |
| | ***16.4*** | Graddfeydd cyflog y Cyngor Cymuned |
| | ***16.5*** | Canllawiau ail agor Canolfannau Cymunedol |
| | ***16.6*** | Arweiniadau Arfer Gorau gan Un Llais Cymru |
| | ***16.7*** | Cais AHNE i ymwneud a sbwriel yn y maes parcio |
| **17.** | | **Cyllid** |
| | ***17.1*** | **Cyfrifon 2020/21**<br>**Derbynwyd bod y cyfrifon yn gywir ar y noson** |
| | ***17.2*** | **Trafodion y gyfriflen banc diweddaraf** |

**Cyfrif Cyfredol**

| Dyddiad | Taliadau | Derbyniadau |
|---|---|---|
| **1 - 30 Mehefin** | 445.36<br>160.00<br>14.00<br>200.00 | |
| | **Balans – 4,741.42** | |
| **1 - 31 Gorffennaf** | 14.00<br>160.00 | 1,744.99 |
| | **Balans - £5560.78** | |
| **1 – 31 Awst** | 1,744.99<br>160.00<br>14.00 | 5,750.00 |
| | **Balans – 10,143.42** | |

**Cyfrif Cadw**

| Dyddiad | Transfer | Derbyniadau |
|---|---|---|
| **7 Mai - 6 Mehefin** | | 2.03 |
| | | **Balans - £4,405.49** |
| **7 Mehefin – 6 Awst** | 1,744.99 | |
| | | **Balans - £2,660.50** |

*Llofnodwyd gan.......................................................................................Dyddiad......................................................*

| | | |
|---|---|---|
| | *17.3* | **Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod**<br><br>**Gorffennaf**<br>Cyflog Clerc - £160<br>Treuliau Clerc £14.00<br>British Heart Foundation (Deffiblwr) £1,744.99<br><br>**Awst**<br>Cyflog Clerc - £160<br>Treuliau Clerc £14.00<br><br>**Medi**<br>Cyflog Clerc - £160<br>Treuliau Clerc £14.00<br>A-Hughes, Jones, Dyson £180 |
| **18.** | | **Trefniadau a dyddiad y Cyfarfod nesaf**<br>Yn ddibynnol ar ganllawiau'r Llywodraeth |

*Llofnodwyd gan……………………………………………………………………………………Dyddiad………………………………………………….*